

Cynigion i Gyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith 2021

1. Ychwanegiad i Gyfansoddiad y Gymdeithas

Nodwn fod staff cyflogedig eisoes yn aelodau o'r Senedd ac nad yw'n ymarferol iddynt ymgymryd ag unrhyw waith na swyddogaeth ychwanegol arni. Nodwn hefyd fod angen ystyried y sefyllfa allai godi pe bai un o swyddogion gwirfoddol y Senedd yn derbyn swydd gyflogedig gyda'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Cynigiwn felly ychwanegu'r pwynt isod rhwng pwyntiau 6ch a 6d yn y Cyfansoddiad:

Gan fod staff cyflogedig eisoes yn aelodau llawn o'r Senedd ac yn atebol iddi, ni allent dderbyn rôl arall arni. Os yw aelod o'r Senedd yn derbyn swydd cyflogedig gyda'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, gofynnir iddynt gamu i lawr o'r swydd wirfoddol. Bydd gan y Senedd hawl i gyfethol unrhyw aelod o'r Gymdeithas i'r swydd wag honno hyd y Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

Cynigir gan Senedd Cymdeithas yr Iaith

2. Cynnig i ehangu enw'r is-grŵp iechyd i **Grŵp Iechyd a Lles** a'i wneud yn atebol yn uniongyrchol i'r Senedd

Rhesymeg

- Ers cyhoeddi Cymru Iachach yn 2018, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio fel un system unigol er mwyn 'helpu pobl i aros yn iach, i wella pan fyddant yn sâl, neu i fyw'r bywyd gorau posib pan fo ganddynt broblemau na fydd yn gwella'. Byddai ehangu enw'r pwyllgor yn fodd i ddenu mwy o sylw at y Gymraeg ar draws y sectorau gan adlewyrchu cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru a'r pwyslais ar wella iechyd a llesiant meddyliol.
- Credwn fod brwydro dros yr iaith mewn iechyd a gofal yn rhan o frwydr ehangach dros gyfiawnder cymdeithasol, a dyma sydd wrth wraidd ein hymgyrch i hawlio gwasanaethau Cymraeg ar draws y sectorau. Mae cynnig darpariaeth o'r fath yn dangos parch tuag at unigolion a chydabod eu hunaniaeth ond, yn fwy na hyn, mae'n fodd o wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau hynny ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- Am hynny, credwn fod gan y Grŵp Iechyd a Lles rôl ehangach wrth ymgyrchu am wasanaethau Cymraeg gan frwydro am ddarpariaeth o'r safon uchaf i bawb ledled Cymru beth bynnag fo'u hoedran, cefndir neu leoliad.
- I bartneriaid a rhanddeiliaid Cymdeithas yr Iaith, byddai newid enw'r pwyllgor yn

fodd o adlewyrchu ei gyfrifoldebau ehangach a chynyddu statws y grŵp yn allanol.

Cynigir gan yr Is-grŵp Iechyd

3. Cynnig i gynnal ymgyrch benodol i sicrhau ‘cynnig rhagweithiol’ o’r Gymraeg ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol

Rhesymeg

- Wrth gyhoeddi strategaeth *Mwy na Geiriau* yn 2012, gweledigaeth Llywodraeth Cymru oedd ‘y byddai siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal sy’n bodloni eu hanghenion fel rhan naturiol o’u gofal, gyda phwyslais cynyddol ar weithredu ‘cynnig rhagweithiol’ o wasanaethau Cymraeg’.
- Yn sgil cyflwyno *Safonau’r Gymraeg*, daeth yr amcanion hyn yn ofynion statudol ond, ac ystyried bod sawl gwasanaeth wedi’i eithrio o’r safonau, mae’r gofynion ymhell o fod yn gyffredinol ar draws y sector iechyd a gofal.
- Erbyn hyn, cynyddu mae’r dystiolaeth am fethiant darparwyr i roi’r ‘cynnig rhagweithiol’ ar waith. Dengys canfyddiadau *Gwerthusiad Mwy na Geiriau* (2021) fod ‘gallu defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i brofiad siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol ac mewn sawl achos i’w deilliannau iechyd a lles’. ‘Ond mae defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn ei chael hi’n anodd i gael gafaél ar y gwasanaethau y maent eu hangen ac maent yn amharod i ofyn amdanynt pan nad ydynt yn cael eu cynnig’. Mae’r adroddiad yn cydnabod mai’r ‘brif her o hyd yw cefnogi’r sector i gyflwyno arferion a systemau sy’n galluogi ac yn sicrhau fod y ‘cynnig rhagweithiol’ yn cael ei ddarparu ar draws pob lleoliad.’

Amcanion

- Galwn ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys i ddiwygio *Safonau’r Gymraeg* er mwyn sicrhau ‘cynnig rhagweithiol’ o wasanaethau Cymraeg i bawb sy’n cael mynediad at y GIG; ac ymestyn y safonau hynny i ddarparwyr gofal iechyd sylfaenol, cartrefi gofal a chymorth yn y cartref.
- Galwn ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal i gynllunio ar frys ar gyfer sicrhau ‘cynnig rhagweithiol’ o’r Gymraeg, yn enwedig mewn ymgyngoriadau clinigol a gofal cymdeithasol.

Gweithredu

- Grŵp Iechyd a Lles i gydweithio gyda’r Grŵp Hawl i alw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio *Safonau’r Gymraeg* ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

- Grŵp Iechyd a Lles i astudio cynnwys *Adroddiad Gwerthuso Mwy na Geiriau* a llunio cynllun er mwyn blaenoriaethu ymgyrch i sefydlu'r 'cynnig rhagweithiol'.
- Grŵp Iechyd a Lles i ymgynghori gyda swyddogion y Senedd a'r Grwpiau Ymgyrchu er mwyn adnabod cyfleoedd i gydweithio ar agweddau penodol o'r ymgyrch.

Cynigir gan yr Is-grŵp Iechyd

4. Galw am Ddeddf Eiddo gyflawn

Yn cynnig bod y Cyfarfod Cyffredinol yn:

Datgan ein siom yn niffyg uchelgais Llywodraeth Cymru i daclo'r problemau enbyd a achosir i'n cymunedau lleol ar draws y wlad oherwydd gweithrediad y farchnad dai agored sy'n gyson ffafrio prynwyr cyfoethocach o du allan i gymunedau incwm isel.

Nodi bod y sefyllfa yn effeithio ar bobl gyffredin ymhob un o gymunedau Cymru mewn gwahanol ffyrdd, a bod angen i'n cymunedau gydsefyll a chydweithio yn wyneb y grymoedd sy'n ein bygwth.

Mynnu fod y llywodraeth yn gweithio tuag at lunio a sicrhau pasio Deddf Eiddo gyflawn yn ystod y tymor seneddol hwn. Dylai'r Ddeddf roi grym ymarferol i gymunedau lleol ledled Cymru dros y farchnad dai a chryfhau eu galluoedd ym maes cynllunio a gwasanaethau i sicrhau mai buddiannau cymunedau lleol sydd flaenaf.

Galw ar ben hyn am becyn o gamau brys i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn seneddol hon i atal chwalfa'n cymunedau Cymraeg sydd dan bwysau mawr gan y farchnad dai yn dilyn Brexit a'r pandemig.

Ailddatgan gwerth y cymunedau hyn i Gymru gyfan ac i ddyfodol yr iaith.

Cynigydd: Ffred Ffransis

Eilydd: Mabli Siriol Jones

5. Deddf Addysg Gymraeg i Bawb

Yn cynnig bod y Cyfarfod Cyffredinol:

Yn datgan bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, o ba bynnag gefndir a ble bynnag maen nhw'n byw.

Yn nodi serch hynny bod 80% o bobl ifanc Cymru yn cael eu hamddifadu o'r iaith oherwydd methiant ein system addysg i dyfu a normaleiddio addysg Gymraeg, a bod

hyn yn anghyfiawnder sylfaenol.

Yn nodi ymhellach, hyd yn oed mewn ardaloedd lle siaredir yr iaith gan fwyafrif o'r boblogaeth, bod nifer o bobl ifanc yn colli eu sgiliau iaith wrth fynd trwy'r system addysg.

Yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg newydd yn nhymor y Senedd hwn, yn dilyn ymgyrchu llwyddiannus gan Gymdeithas yr Iaith ac eraill.

Yn credu bod y Ddeddf hon yn cynnig cyfle unwaith mewn cenedlaeth i roi'r Gymraeg i bob plentyn, ac felly dylai fod yn nod canolog yn y Ddeddf i symud tuag at addysg cyfrwng Gymraeg cyflawn i bob plentyn erbyn dyddiad penodol, ar fodel tebyg i fodel Catalwnia.

Yn galw felly ar y Llywodraeth i sicrhau bod y Ddeddf Addysg Gymraeg:

- yn gosod nod statudol o symud tuag at addysg cyfrwng Gymraeg cyflawn i bob plentyn erbyn dyddiad penodol;
- yn diddymu'r gyfundrefn o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a rhoi yn ei lle gyfundrefn newydd o gynllunio ac ariannu addysg Gymraeg ar lefel leol a chenedlaethol, gyda thargedau statudol;
- yn sefydlu targedau statudol o ran recriwtio a hyfforddi'r gweithlu addysg Gymraeg;
- yn gosod targedau o ran cynyddu nifer a chanran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion sy'n addysgu'n bennaf drwy'r Saesneg ar hyn o bryd;
- yn gosod rheol i sicrhau na fydd yr un ysgol na sefydliad addysg newydd yn agor gyda chanran is o'r addysg drwy gyfrwng y Gymraeg na'r sefydliadau addysg yn yr ardal leol, na llai na 50% o'r addysg drwy'r Gymraeg.

Yn gweithredu holl gynigion eraill y Gymdeithas yn ein papur [Yr Achos dros Ddeddf Addysg Gymraeg](#).

Cynigir gan y Grŵp Addysg

6. Pwerau darlledu a chyfathrebu llawn i Gymru

Cred y Cyfarfod Cyffredinol fod y system ddarlledu a chyfathrebu Brydeinig yn fgygythiad i ddemocratiaeth Cymru a'r Gymraeg.

Collfarnwn Ofcom am ymddwyn fel ci bach y Llywodraeth Doriaidd ac am hybu a hwyluso rhagor o breifateiddio a dadreoleiddio'r gyfundrefn cyfathrebu.

Collfarnwn ymhellach ymdrechion parhaus Llywodraeth Prydain i danseilio darlledu cyhoeddus.

Galwn felly am bwerau darlledu a chyfathrebu llawn i Gymru a hynny ar frys.

Cynigir gan y Grŵp Dyfodol Digidol

7. Cynnwys cynllunio ar gyfer cymunedau Cymraeg cynaliadwy mewn strategaethau datblygu economaidd

Galwn ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu methodoleg er mwyn sicrhau bod cynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy Cymraeg yn elfen annatod mewn strategaethau datblygu economaidd.

Cynigir gan Ranbarth Caerfyrddin-Penfro

8. Cynnig brys: Hiliaeth yng Nghymru

Yn cynnig bod y Cyfarfod Cyffredinol:

- 1) yn nodi ac yn ail-gymeradwyo cynnig Cyfarfod Cyffredinol 2020 '*Mae Bywydau Du o Bwys*'
- 2) yn nodi bod llofruddiaeth hiliol erchyll George Floyd ym Mawrth 2020 gan heddwys yn UDA wedi gwneud i gymunedau ar draws y byd ail-edrych ar driniaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn cymdeithas, yr hiliaeth a wynebir ganddynt yn ddyddiol ym mhob agwedd o fywyd ac amlygu ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys
- 3) yn nodi bod hiliaeth yn bodoli yng nghymunedau Cymru. Fel pob cymuned, diwylliant a chenedl, rhaid cydnabod yr hiliaeth cyn mynd ati i weithredu er mwyn gwyrddroi'r canrifoedd o ragfarn a thrais mae pobl wedi ei wynebu.
- 4) yn nodi bod Cymdeithas yr Iaith wedi bod ar flaen y gad yn ymladd hiliaeth yn y gorffennol yn enwedig yn ymgyrchu yn agos law yn llaw gyda'r Mudiad Gwrth Apartheid yn y 70au a'r 80au a thrwy wrthod cyfarfod â phleidiau ffasgaid
- 5) yn sgil adroddiadau dros yr wythnosau diwethaf a ffilmiau gan raglenni fel Hansh sydd yn dangos fod hiliaeth sefydliadol dal yn bodoli yng Nghymru ac heb wella, yn cydnabod ei fod yn bwysig fod Cymdeithas yr Iaith yn ymateb i hyn ar frys.

Creda'r Cyfarfod Cyffredinol:

- 1) bod hi'n bwysig i Gymdeithas yr Iaith gydweithio â grwpiau a mudiadau gwrth-hiliol fel Mae Bywydau Du o Bwys i wella addysg, gweithredu a dangos fod hiliaeth yr un mor berthnasol i'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg ym mhob man

- ag unrhyw gymuned arall
- 2) bod cynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fach iawn ar hyn o bryd a bod angen gweithredu radical i weddnewid y sefyllfa a chynyddu'r amrywiaeth sy'n gweithio mewn swyddi cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddwn fod llwyddiant yr ymgyrch Deddf Addysg Gymraeg yn allweddol i sicrhau fod hawl gan bawb i fod yn siaradwyr Cymraeg, beth bynnag eu lliw croen neu gefndir ethnig.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol:

- 1) y dylai'r Gymdeithas ymestyn yr arweiniad o ymgyrchu dros gyfiawnder i ymgyrchu yn erbyn hiliaeth a dros hawliau pobl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd pob grŵp ymgyrchu yn ystyried gwrth-hiliaeth fel rhan o'u hymgyrch dros y Gymraeg.
- 2) y bydd Cymdeithas yr Iaith yn barod i wneud datganiadau yn erbyn hiliaeth pan fo hiliaeth yn digwydd yn y mudiad, mewn gweithgarwch cyfrwng Cymraeg neu unrhyw ffordd arall yng Nghymru.
- 3) cefnogi protestiadau gwrth-hiliaeth a bod yn barod i hyrwyddo gweithredu yn erbyn hiliaeth ar y cyfryngau.
- 4) annog sgysiau onest am hiliaeth o fewn ein cymunedau trwy gwahanol gyfryngau, a sut i fynd ati i wyrddroi rhagfarn.

Cynigydd: Rhodri Francis

Eilydd: Ali Yassine